Ar 26 Ionawr 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei data a'i chanfyddiadau diweddaraf ar y defnydd o Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio ledled Cymru a Lloegr rhwng Chwefror a Rhagfyr 2021. ³⁶ Yn gyffredinol, canfuwyd bod nifer y ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio wedi cynyddu, ond bod gwahaniaeth mawr rhwng

³⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/management-information-stalking-protection-orders/review-of-stalking-protection-orders-accessible-version#recommendations>

³⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/management-information-stalking-protection-orders/review-of-stalking-protection-orders-accessible-version>

heddluoedd. Heddlu Metropolitan a Sussex a wnaeth y nifer fwyaf o geisiadau (106 a 36 yn y drefn honno) er enghraifft, tra bod 28 o heddluoedd wedi cyflwyno llai na 5 cais yr un am Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio.

Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan adran Gwasanaethau Cyfreithiol yr Heddlu yn dangos bod pedwar Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio ac un Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio dros dro wedi'u caniatáu ar draws ardal Dyfed-Powys yn ystod 2021/22, tra bod 5 cais yn aflwyddiannus. Yn ystod 2022/23, dim ond 1 Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio a roddwyd. Bu 6 chais yn aflwyddiannus.

Dywedodd yr adran Gwasanaethau Cyfreithiol fod ceisiadau'n aflwyddiannus oherwydd na chyflawnwyd y meini prawf ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio a bod ffeiliau'n cael eu cau pan na dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach na chyfarwyddiadau gan y swyddogion ymchwilio.

Ar adeg ysgrifennu'r adran hon o'r adroddiad (Mawrth 2023), roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 7 Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio gweithredol, y rhoddwyd 5 ohonynt ar waith ar ôl Rhagfyr 2021, ac felly ni fyddent wedi'u cynnwys yn nata'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023.

Bu staff o SCHTh yn craffu ar y Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio i asesu prydlondeb yr ystyriaeth gychwynnol o Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio a'i chymhwysiad, tymor y Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio, ac a oedd y cyflawnwr sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio yn cael ei fonitro'n effeithiol.

Amseroldeb

O ran pa mor fuan i ymchwiliad yr ystyriwyd Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio i ddechrau, roedd y canfyddiadau'n amrywio. Yn galonogol, mewn achos stelcio gydag elfen o gam-drin domestig lle roedd y troseddwr eisoes wedi torri Gorchmynion Diogelu Trais Domestig, cysylltwyd â'r dioddefwr i drafod Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio ddeuddydd yn unig ar ôl iddo gysylltu â'r heddlu.

Ystyriwyd Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio ar ôl 10 niwrnod mewn un achos, yn dilyn awgrym gan yr Uned Rheoli Troseddwyd. Mewn achosion eraill, cymerodd 20 niwrnod, un mis a dau fis. Mae'r achos olaf, er ei fod yn cymryd mwy o amser i ystyried Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio, yn cael ei amlygu fel arfer gorau gan SCHTh: Pwysleisiodd y goruchwyliwr sut y gallai Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio orfodi amodau megis mynychu'r Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd ac ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl ochr yn ochr â gwaharddiadau.

Mewn achos arall, cynghorodd Swyddog Cam-drin Domestig y swyddog ymchwilio i ystyried Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio 3 mis ar ôl cyswllt â'r heddlu. Ystyriwyd gorchmynion sifil eraill yn gyntaf mewn achos gwahanol, gyda Gorchymyn Atal yn cael ei ganiatáu, gan ohirio'r cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Stelcio.

Roedd hyd yr amser rhwng cyswllt cychwynnol â'r heddlu a chaniatáu Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio hefyd yn amrywio ar draws yr achosion a ystyriwyd.

Caniatawyd pump o'r saith o fewn 4-6 mis. Yn un o'r achosion hyn, rhoddwyd Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio dros dro chwe mis ar ôl i'r dioddefwr gysylltu â'r heddlu a rhoddwyd Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio sylweddol ar waith 3 mis yn ddiweddarach. Mae'r achos hwn yn dangos arfer gorau, gan ei bod yn amlwg bod camau wedi'u cymryd i atal aildroseddu ac amddiffyn y dioddefwr, er gwaethaf diffyg cefnogaeth gan y dioddefwr.

Mae gweddill yr achosion wedi'u lleoli ar wahanol begynau'r raddfa. Mewn un achos, roedd yr amser rhwng cyswllt â'r heddlu a'r Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio yn cael ei ganiatáu yn llai na 4 wythnos. Yn yr achos arall cysylltwyd â'r heddlu ym mis Mawrth 2021 a chaniatawyd Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio 17 mis yn ddiweddarach. Nid oedd y dioddefwr yn dymuno darparu datganiad na symud ymlaen i achos llys ond gofynnodd am Orchymyn Amddiffyn rhag Stelcio. Roedd anawsterau tystiolaethol a lesteiriodd ymchwiliad a arweiniwyd gan dystiolaeth. Cafodd y ddau ffactor hyn effaith ar y cais Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio.

Tymor y Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio

Caniatawyd tri o'r Gorchymynion Amddiffyn rhag Stelcio a ystyriwyd am gyfnod o ddwy flynedd, a chaniatawyd dau am gyfnod o bum mlynedd.

Rhoddwyd un Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio ar waith am ddeng mlynedd, tra bod yr un olaf yn 'amhendant.'

Mae'n amlwg y gall Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio fod ar waith ers cryn amser ac felly mae'n bwysig bod yr Heddlu'n monitro troseddwy'r sy'n destun Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio yn effeithiol.

Monitro Troseddwy'r

Er mwyn cael syniad o werth y Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio hyn, pa mor effeithiol y maent yn gweithio, a sut mae'r troseddwy'r yn cael eu rheoli, cyrchodd SCHTh system gudd-wybodaeth Mynegai Prif Enwol (PNI) yr Heddlu. Mae'r system yn caniatáu i droseddau a gyflawnwyd yn ardal Dyfed-Powys gael eu hadolygu yn erbyn enw'r troseddwr, i weld a yw'r troseddwr wedi cyflawni troseddau pellach sy'n gysylltiedig â'r un dioddefwr, neu droseddau tebyg eu natur.

Nid oedd gan dri o'r saith troseddwr a oedd yn destun y Gorchymynion Amddiffyn rhag Stelcio a ystyriwyd unrhyw droseddau pellach yn erbyn eu henwau ar PNI. Nid yw un o'r troseddwy'r hyn yn byw yn ardal yr Heddlu. Mae un arall yn parhau yn y carchar, ar ôl cael ei arestio am dorri amodau Gorchymynion Diogelu Trais Domestig.

Ar gyfer y troseddwy'r sy'n weddill, mae PNI yn dynodi troseddau stelcio pellach mewn tri achos. O'r rhain, roedd dau droseddwr wedi cyflawni troseddau stelcio pellach yn erbyn yr un dioddefwr. Roedd un o'r troseddwy'r hyn wedi torri Gorchymyn Peidio ag Ymyrryd ac wedi anfon cyfathrebiadau maleisus at y dioddefwr. Canlyniadau'r rhain oedd Canlyniad 16 (*Nid yw'r dioddefwr yn cefnogi (neu mae wedi tynnu cefnogaeth yn ôl) - y sawl a amheuir a enwir*) a Chanlyniad 21 (*Ymchwiliad pellach i gefnogi*

gweithredu ffurfiol nad yw er budd y cyhoedd - penderfyniad yr heddlu) yn y drefn honno. Mae'n amlwg bod ymddygiad stelcio y cyflawnwr hwn yn erbyn y dioddefwr wedi parhau ac nad oedd gorchmynion sifil yn ataliad. Roedd angen i'r troseddwr hwn gael ei reoli'n effeithiol gan yr Heddlu er mwyn atal ei ymddygiad rhag gwaethgu ymhellach.

Aeth un troseddwr ymlaen i stelcio dioddefwr gwahanol. Roedd y troseddwr olaf a oedd yn destun Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio wedi cyflawni troseddau amrywiol yn erbyn gwahanol ddioddefwyr.

Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio yn ddigon o ataliad rhag aildroseddu, yn ogystal ag effeithiolrwydd sut mae cyflawnwyr yn cael eu monitro tra'u bod yn destun Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio.

Fel y soniwyd eisoes, mae SCHTh yn ymwybodol o sefydlu swydd newydd Swyddog Gorchmynion Sifil. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i fonitro troseddwr sy'n destun gorchmynion sifil. **Mae SCHTh yn argymhell bod recriwtio i rôl y Swyddog Gorchmynion Sifil yn cael ei flaenoriaethu. Dylai datblygu proses i fonitro troseddwr sy'n ddarostyngedig i bob gorchymyn sifil fod yn un o ffocws cychwynnol y rôl.**

Amodau Mechnïaeth

Pan fydd troseddwr yn cael ei ryddhau o ddalfa'r heddlu yn aros am wrandawriad llys/treial (ar ôl cyhuddo), neu tra bod yr ymchwiliad yn parhau (cyn cyhuddo), efallai y bydd yn rhaid iddo gytuno i amodau mechnïaeth. Gall y rhain gynnwys:

- byw mewn cyfeiriad penodol;
- peidio â chysylltu â phobl benodol;
- rhoi eu pasbort i'r heddlu fel na allant adael y DU;
- adrodd i orsaf heddlu ar amseroedd y cytunwyd arnynt ³⁷.

Mewn rhai achosion, er mwyn diogelu'r dioddefwr ac atal aildroseddu, gellir ceisio gorchymyn sifil ochr yn ochr ag amodau mechnïaeth. Gall hyn ddigwydd pan fydd penderfyniad cyhuddo yn annhebygol o gael ei fodloni o fewn terfynau amser carcharu.

Rheoli Gorchmynion Sifil

Mae SCHTh wedi cael gwybod bod arweinydd VAWG yr Heddlu wedi cwblhau Adolygiad Cam-drin Domestig ym mis Chwefror 2023 yn canolbwyntio ar ymchwilio, diogelu a rheoli troseddwr. Roedd yr adolygiad yn cynnwys rheoli gorchmynion sifil ac yn nodi'r broses reoli bresennol a'r opsiynau ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Pwysleisiodd yr adolygiad nad yw rheolaeth gorchmynion sifil yn symlach nac yn gyson. Mae rhai gorchmynion sifil, megis Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio yn cael eu rheoli o fewn yr Uned Rheoli Troseddwr, tra bod eraill, fel Gorchmynion Diogelu Trais Domestig yn cael eu rheoli ar lefel ardal blismona leol. Unwaith y bydd

³⁷ <https://www.gov.uk/charged-crime/bail>

gorchymyn yn cael ei gymhwyso, nid oes ystorfa ganolog i fonitro a rheoli pynciau'r gorchymyn. Y swyddogion ymchwilio a'r Timau Plismona Bro sy'n delio â'r rhai sydd y tu allan i gylch gorchwyl yr Uned Rheoli Troseddwr.

Mae'r adolygiad hefyd yn cyfeirio at gynnydd a ragwelir mewn rheoli troseddwr dros y pum mlynedd nesaf gyda'r ffocws ar droseddwr Trais yn Erbyn Menywod a Merched, treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill, a cham-drin domestig. Disgwylir i hyn arwain at waith ychwanegol i'r Uned Rheoli Troseddwr a'r rhai sy'n rheoli gorchmynion sifil ar draws ardal yr Heddlu.

Roedd yr adolygiad yn cynnig datblygu a gweithredu proses a fydd yn sicrhau bod gorchmynion sifil yn cael eu monitro i sicrhau'r amddiffyniad mwyaf posibl i'r dioddefwr a chymunedau lleol. Mae proses glir wedi'i nodi yn yr adolygiad, gan nodi'r gwahanol gamau a phwy ddylai gymryd perchnogaeth ar bob cam. Bydd fforymau cudd-wybodaeth lleol yn cael eu defnyddio i nodi swyddog neu adran ddynodedig i oruchwyllo'r gwaith o reoli'r gorchymyn sifil, gan gyflawni tasgau fel:

- canfod a oedd rhaglen cyflawnwyr wedi'i chwblhau;
- cysylltu o bryd i'w gilydd â'r dioddefwr i ganfod a fu unrhyw doriadau o'r gorchymyn sifil;
- sicrhau bod unrhyw berthnasod newydd y mae'r troseddwr yn ymrwymo iddynt yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw ddatgeliadau, megis Cyfraith Clare³⁸.

Byddai proses fel yr uchod yn galonogol, gan fod gorchmynion sifil yn gallu para sawl blwyddyn weithiau, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu monitro drwy gydol eu cyfnod. Yn wir, mae gan un o'r Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio a adolygwyd uchod dymor *amhenodol* ac mae angen monitro agos, parhaus.

Byddai'r dull hwn hefyd yn unol ag adran 34 o'r Gofyniad Plismona Strategol (SPR) 2023 newydd, sy'n nodi bod yn rhaid i heddluoedd "*gynnal y gallu i ymateb i bob trosedd Trais yn Erbyn Menywod a Merched [...] ac yng nghyd-destun blaenoriaethau lleol, dylai swyddogion a staff allu asesu i ba raddau y mae angen iddynt:*

*c. gwneud defnydd o'r fframwaith deddfwriaethol presennol, gan gynnwys ystyried y defnydd o orchmynion sifil ataliol (gan gynnwys gorchmynion interim), i amddiffyn dioddefwyr ac ymyrryd yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys ystyried a allai unrhyw un o'r canlynol fod yn briodol: gorchmynion diogelu megis gorchmynion risg rhywiol, gorchmynion atal niwed rhywiol, hysbysiadau amddiffyn trais domestig, gorchmynion amddiffyn trais domestig, gorchmynion amddiffyn rhag stelcio, gorchmynion amddiffyn anffurfio organau cenhedlu benywod, gorchmynion amddiffyn priodas dan orfod, ac a yw'r cynllun datgelu trais domestig, hefyd yn hysbys, a elwir hefyd yn "Gyfraith Clare", y gellid ei chymhwyso."*³⁹

³⁸ Mae Cyfraith Clare yn galluogi'r heddlu i ddatgelu gwybodaeth i ddioddefwr neu ddioddefwr posibl cam-drin domestig am droseddu treisgar neu gamdriniol blaenorol eu partner neu gynbartner -

<https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/domestic-violence-disclosure-scheme-factsheet>

³⁹ Tudalen 15 ac 16 [20230223_Plismona Strategol_Gofyniad_V1.2 - OS.pdf \(cyhoeddi.gwasanaeth.gov.uk\)](#)

Mae SCHTh felly'n argymhell bod yr Heddlu yn ystyried gweithredu'r prosesau i reoli gorchmynion sifil, fel yr argymhellwyd gan arweinydd Trais yn Erbyn Menywod a Merched yr Heddlu yn yr Adolygiad o Gam-drin Domestig.

Torri Amodau Mechnïaeth, Gorchmynion Sifil a Hysbysiadau

Mae adran 34d o'r Gofyniad Plismona Strategol yn nodi bod yn rhaid i swyddogion a staff *“ymchwilio i achosion o dorri gorchmynion sifil, gan wneud defnydd llawn o'r ystod o offer sydd ar gael, i reoli risg ac i leihau niwed.”*⁴⁰

Mae achosion o dorri amodau mechnïaeth, gorchmynion sifil a hysbysiadau yn digwydd yn ardal Dyfed-Powys, fel y dangosir yn y graffiau sy'n dilyn. Mae staff SCHTh hefyd wedi gweld tystiolaeth o hyn trwy eu hapsamplu o achosion o stelcio ac aflonyddu, a amlygir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae'r graddau yr eir i'r afael â thoriadau yn effeithio ar ba mor effeithiol y rheolir cyflawnwyr, ac yn ei dro, pa mor dda y caiff dioddefwyr eu diogelu.

Nododd Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi hwn fel maes o bryder yn eu hadroddiad yn 2019 *'Stelcio ac aflonyddu: Arolygiad o Heddlu Sussex a gomisiynwyd gan y comisiynydd heddlu a throsedd, a diweddariad ar argymhellion cenedlaethol yn adroddiad Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn 2017'*: *“Rydym yn pryderu bod heddluoedd yn ymdrin â thorri gorchmynion ar eu pen eu hunain, ac nad ydynt yn cydnabod nac yn mynd i'r afael yn briodol â'r patrymau ehangach o erledigaeth. O ganlyniad, efallai na fydd heddluoedd yn asesu'r risgiau i rai dioddefwyr yn ddigonol, ac efallai na fyddant yn ymchwilio ac erlyn achosion yn briodol.”*⁴¹

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod bod hwn yn faes y mae angen rhagor o waith arno.


Lle torrwyd naill ai Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig neu Orchmynion Diogelu Trais Domestig, mae gan yr Heddlu ddyletswydd i remandio'r troseddwr yn y ddalfa a dod ag ef gerbron Llys Ynadon.⁴²

⁴⁰ Tudalen 16 [20230223_Plismona Strategol_Gofyniad_V1.2_-_OS.pdf \(cyhoeddi.gwasanaeth.gov.uk\)](#)

⁴¹ Tudalen 17 <https://www.sussex-pcc.gov.uk/media/4087/stalking-and-harassment-inspection-sussex-police-april-2019.pdf>

⁴² <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-violence-protection-orders/domestic-violence-protection-notices-dvpns-and-domestic-violence-protection-orders-dvpos-guidance-sections-24-33-crime-and-security-act-2010#:~:text=4.10%20Breach%20of%20a%20DVPN,from%20the%20time%20of%20arrest.>


Graff 9: Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig wedi'u caniatáu a'u torri



Ffynhonnell: Power BI 08/03/2023

Mae nifer yr Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a dorwyd yn eithaf isel o gymharu â'r niferoedd a gyhoeddwyd. Y nifer uchaf o doriadau a gofnodwyd mewn un mis oedd 2 (Mai 2022).

Graff 10: Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig wedi'u caniatáu a'u torri



Ffynhonnell: Power BI 08/03/2023

Cyhoeddwyd nifer uchel o orchmynion ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, gyda 6 ac 8 toriad wedi'u cofnodi yn y drefn honno.

Fel gyda'r data ar gyfer Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a Gorchmynion Diogelu Trais Domestig a ganiatawyd, roedd y data ar gyfer Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a Gorchmynion Diogelu Trais Domestig a dorwyd ar gael yn rhwydd ar Ddangosfwrdd Perfformiad yr Heddlu, Power BI. Yn anffodus, nid oedd data tebyg ar gael yn hawdd am dorri Gorchmynion Atal Ymyrryd, Gorchmynion Atal neu Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio.

Fodd bynnag, mae torri Gorchmynion Peidio ag Ymyrryd, Gorchmynion Atal a Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio hefyd yn droseddau ac felly cânt eu cofnodi yn erbyn manylion troseddwr ar systemau'r heddlu.

"Mae gan yr heddlu bŵer arestio lle mae gan swyddog sail resymol dros gredu bod amodau a osodwyd ar [...] fod mechnïaeth wedi'i dorri."⁴³ Os yw'n achos o dorri mechnïaeth cyn cyhuddo, gall swyddogion arestio'r troseddwr a'i ddychwelyd i'r

⁴³ <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/bail>

ddalfa, ond ar hyn o bryd, nid yw trosedd wedi'i chyflawni. Mae achos o dorri amodau mechnïaeth cyn cyhuddo wedi'i nodi ar gofnod dalfa gwreiddiol y troseddwr ac ni fyddai'n ymddangos ar systemau'r Heddlu wrth chwilio am hanes troseddwr.

Mae achosion o dorri amodau mechnïaeth ar ôl cyhuddo yn drosedd ac felly cânt eu cofnodi yn erbyn manylion troseddwr ar systemau'r heddlu.

Mae SCHTh wedi cael ei hysbysu nad yw data ar bob achos o dorri amodau mechnïaeth ar gael yn rhwydd oherwydd y gwahaniaeth hwn yn y ffordd yr ymdrinnir ag achosion o dorri amodau mechnïaeth cyn ac ar ôl cyhuddo. Rhaid i swyddogion wirio nifer o systemau i nodi achosion o dorri amodau.

Mae'r gwahaniaeth yn y modd y cofnodir achosion o dorri rheolau, a lle mae'r wybodaeth ar gael, yn cryfhau argymhelliad SCHTh i'r Heddlu ystyried sut y gellir datblygu eu Dangosfyrddau Perfformiad i alluogi craffu agosach ar y cais a thorri gorchmynion sifil fel y rhain.

Mae'n bwysig bod y darlun ehangach yn cael ei ystyried wrth edrych ar hanes troseddu cyflawnwr a phatrymau ymddygiad, yn enwedig wrth iddynt ddiystyru amodau gorchymyn sifil neu fechnïaeth.

Bydd dyfodiad y ⁴⁴ system rheoli cofnodion Niche yn gwella gallu'r Heddlu i ystyried y darlun ehangach yn effeithiol, ond nid yw'r Pecyn Rheoli Troseddwr Niche wedi'i sefydlu eto ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Ar hyn o bryd, gellir ychwanegu baneri at gofnod troseddwr i ddangos ei fod wedi torri gorchymyn sifil.

Mae hyn yn welliant, ond mae'n bwysig bod yr Heddlu yn cymryd camau pellach i wella'r mater hwn wrth aros i'r Pecyn Rheoli Troseddwr Niche gael ei weithredu.

Byddai mynediad cynnar at wybodaeth o'r fath a'i hystyried o fudd i'r swyddog ymchwilio wrth asesu'r risg y mae'r cyflawnwr yn ei pheri ac wrth ystyried y prosesau rheoli troseddwr a diogelu dioddefwyr mwyaf effeithiol i'w mabwysiadu. Os nad oes gan swyddog ymchwilio fynediad at batrwm ehangach llawn o ymddygiad, efallai na fydd yr ymyriadau a diogelu dioddefwyr y maent yn eu cychwyn mor effeithiol.

Amlygwyd pwysigrwydd ymchwilio ac ymdrin ag achosion o dorri mesurau atal, megis hysbysiadau a gorchmynion, hefyd gan yr Athro Jane Monckton-Smith mewn trafodaeth â staff SCHTh.

Dysgu gan yr Athro Jane Monckton-Smith

Pwysleisiodd yr Athro y bydd toriad nad yw'n cael ei drin yn dda yn gam yn ôl yn adferiad y dioddefwr ac yn annog y sawl a ddrwgdybir i barhau â'i weithgarwch troseddol: *"Mae toriad yn doriad, ac mae'n rhaid i chi weithredu arno, neu mae'r person obsesiynol yn mynd i barhau i weithredu yn y ffordd honno."*

O ystyried yr uchod, ceisiodd staff SCHTh ddod o hyd i wybodaeth am achosion blaenorol o dorri amodau gorchmynion sifil ac amodau mechnïaeth cyflawnwyr yn yr

⁴⁴ <https://nicherms.com/region/uk/>

achosion a oedd yn gysylltiedig â'r ymarfer hapsamplu. Nodwyd nad oes un lleoliad penodol ar systemau'r Heddlu lle gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd. Mae'r toriadau sy'n arwain at drosedd gofnodadwy yn cael eu cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, a gellir cyrchu'r wybodaeth ar PNi.

Fodd bynnag, nid yw unrhyw doriad nad yw'n gyfystyr â throedd gofnodadwy, megis torri mechnïaeth cyn cyhuddo, ar gael ar y system hon. Mae toriadau nad ydynt yn gyfystyr â throedd yr un mor bwysig i'w hystyried â thoriadau, wrth ystyried ymddygiad cyflawnwr yn y gorffennol. Fel y pwysleisiwyd gan yr Athro Jane Monckton-Smith, mae toriad yn doriad.

Mae SCHTh yn argymhell bod Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei sicrhau y gall swyddogion ymchwilio gael mynediad hawdd at gofnod cyflawn o hanes troseddwr o dorri amodau ar y cam cynharaf posibl o ymchwiliad.

Byddai'r dull hwn hefyd yn cynorthwyo Heddlu Dyfed-Powys i fynd â thoriadau i'r llys yn llwyddiannus. Byddai cofnod cyflawn hygyrch o'r holl doriadau yn pwysleisio pwysigrwydd y llys yn ystyried toriad cyfredol, yn unol ag achosion blaenorol.

Dyweddodd yr Athro Jane Monckton-Smith y gallai'r ffordd y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn ystyried achosion o dorri amodau hefyd gael effaith ar sut y gall yr heddlu ymateb iddynt. Roedd yr Athro yn pryderu, yn lle ystyried pam fod y toriad yn bwysig, h.y., ei fod yn dystiolaeth o ymddygiad obsesiynol, mae'r Llysoedd yn canolbwyntio'n llwyr ar natur yr achos unigol o dorri amodau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi tynnu sylw at y pryder hwn yn eu trafodaethau gyda SCHTh. Roedd yr Heddlu'n bryderus ynghylch pa mor anhyblyg y mae GLITEM yn cymhwyso eu hegwyddorion arweiniol yn unol â natur y toriad. O ganlyniad i'r pryder hwn, mae'r Heddlu, ynghyd â'r Cynghorydd Rhanbarthol ar gyfer Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, â GLITEM i gynnig ac annog hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y mater. Yn anffodus, cafwyd gwrthwynebiad i'r awgrym hwn, gyda GLITEM yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal annibyniaeth farnwrol yn ogystal ag amhleidioldeb mewn unrhyw hyfforddiant a ddarperir.

Mae SCHTh yn argymhell bod GLITEM yn ystyried hyfforddiant annibynnol i wella dealltwriaeth a gwybodaeth barnwyr o arwyddocâd torri gorchmynion sifil.

Dylid bwrw ymlaen â'r cam hwn mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth VAWDASV, gwasanaethau a gomisiynir, dioddefwyr a goroeswyr. Byddai hyn yn sicrhau bod effaith penderfyniadau'r llysoedd ar ddioddefwyr yn cael ei deall yn llawn.

Myfyrion ar y Rhaglen Berthnasoedd

Yn adran '[Plismona Stelcio ac Aflonyddu - Blaenoriaeth](#)' o'r adroddiad hwn, darparwyd manylion am y rhaglen uchod, y gellir cyfeirio cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu ati.

Dywedodd Cydgysylltydd Cynlluniau Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio yr Heddlu wrth SCHTh eu bod wedi goruchwyllo ugain o atgyfeiriadau i'r Cynllun, gyda phedwar atgyfeiriad yn cael eu gwneud hyd yn hyn yn 2023. Roedd dau atgyfeiriad pellach yn cael eu sicrhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn⁴⁵.

Roedd saith cyflawnwr wedi cwblhau'r Rhaglen ar adeg ysgrifennu hwn, ac roedd nifer yn parhau i ymgysylltu. Tynnodd tri chyflawnwr yn ôl o'r Rhaglen, ac roedd un atgyfeiriad wedi'i ohirio wrth aros am achos troseddol.

Bellach gellir gosod ymgysylltiad â'r Rhaglen yn orfodol, drwy amodau o fewn Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio. Mae pedwar cyflawnwr wedi ymgysylltu â'r Rhaglen o ganlyniad uniongyrchol i amod Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio.

Ar hyn o bryd nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn monitro cyflawnwyr ar ôl iddynt gwblhau'r Rhaglen i asesu a ydynt yn mynd ymlaen i aildroseddu.

Mae SCHTh yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fwy o weithgarwch dilynol a monitro unwaith y bydd ymyriadau, fel y Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd, wedi'u cwblhau.

Mae hyn yn unol â'r argymhelliad a gyflwynwyd yn Adolygiad Cam-drin Domestig Arweinydd yr Heddlu Trais yn Erbyn Menywod a Merched y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn yr adran hon.

Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr

Mae Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr yr Heddlu yn rhoi rhestr i Heddlu Dyfed-Powys o'r cyflawnwyr sy'n peri'r risg fwyaf o fewn cymunedau lleol, ar draws gwahanol fathau o droseddau. Mae'n caniatáu i gyflawnwyr risg uchel a chyfresol gael eu nodi a'u monitro, gan asesu ymyriadau addas. Mae cyflawnwyr stelcio yn ymddangos ar y rhestr Blaenoriaethu.

Mae'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr yn defnyddio Mynegai Niwed Troseddau Caergrawnt⁴⁶ i sgorio ac asesu difrifoldeb niwed trosedd i ddioddefwyr. Mae'r Mynegai Niwed Troseddau yn mesur pa mor niweidiol yw gwahanol droseddau yn gymesur ag eraill, gan ychwanegu mwy o bwysau at droseddau mwy niweidiol. *“Yn ymarferol, gall mabwysiadu mynegai niwed ganiatáu targedu'r lleoedd â'r niwed mwyaf, y troseddau mwyaf niweidiol, y dioddefwyr sydd wedi'u niweidio fwyaf, a gall helpu i adnabod dioddefwyr-droseddau.”*

Er bod Heddlu Dyfed-Powys wedi mabwysiadu'r Mynegai Niwed wrth ddatblygu'r Teclyn mewnlol hwn, maent wedi gallu golygu rhai meini prawf i roi cyfrif am flaenoriaethau a materion lleol. Er enghraifft, mae'r meini prawf sgorio ar gyfer stelcio wedi'u golygu i sicrhau bod cyflawnwyr stelcio risg uchel yn ymddangos yn uwch i fyny'r rhestr flaenoriaethu.

⁴⁵ 23/03/2023

⁴⁶ <https://www.crim.cam.ac.uk/research/thecambridgecrimeharmindex>

Mae'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr ar gael ar hyn o bryd i swyddogion yn Sir Benfro ar sail prawf. Bydd ar gael yn fuan ar draws ardal yr Heddlu. Fodd bynnag, gyda dyfodiad Niche, bydd angen gwneud gwaith i sicrhau bod yr Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr yn gydnaws â'r system newydd.

Mae SCHTh yn argymhell y dylai gwaith i wreiddio'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr o fewn Niche gael ei flaenoriaethu gan yr Heddlu, er mwyn cynnal ffocws ar y prosiect hanfodol hwn.

Clinigau Stelcio Seicolegydd

Yn 2022, cyflwynodd yr Heddlu Glinigau Stelcio lle mae seicolegydd yn cyfarfod â Chydlynnydd Cynlluniau Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio yr Heddlu, y Ditectif Arolygydd o Hyb Diogelu'r Cyhoedd a Swyddogion Cam-drin Domestig i drafod achosion penodol. Mae tri chlinig wedi'u cynnal ers ei gyflwyno, ac adolygwyd wyth cyflawnwr.

Hyfforddiant ar Stelcio ac Aflonyddu

Mae ymchwilio i achosion o stelcio ac aflonyddu a rheoli'r cyflawnwyr dan sylw yn effeithiol yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r troseddau hyn, seicoleg y cyflawnwyr a dulliau rheoli cyflawnwyr.

Mae Adran 34 Gofyniad Plismona Strategol 2023 yn nodi: *“Dylai heddluoedd gynnal y gallu i ymateb i bob trosedd Trais yn Erbyn Menywod a Merched gan gynnwys trwy gael swyddogion a staff sydd wedi’u hyfforddi’n briodol.”*⁴⁷

Er mwyn asesu’n annibynnol pa mor gymwys yw swyddogion Heddlu Dyfed-Powys o ran ymchwilio i achosion o stelcio ac aflonyddu a rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu, gofynnwyd i Dîm Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys roi manylion yr holl hyfforddiant sy’n ymwneud â stelcio ac aflonyddu a ddarparwyd i swyddogion a staff.

Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona

Mae fyfyrwyr ar y Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona gyda Heddlu Dyfed-Powys yn cael mewnbwn ar y canlynol:

- Deddf Diogelu rhag Stelcio 2019, y troseddau o stelcio ac aflonyddu a’u gorgyffwrdd posibl, fel rhan o’u dysgu ar ddeddfwriaeth a chanllawiau sy’n gysylltiedig â phlismona ‘diogelu’r cyhoedd;
- mathau posibl o gam-drin/niwed, gan gynnwys cam-drin sy’n gysylltiedig â digidol, fel rhan o’u dysgu ar ehangder digwyddiadau cam-drin;
- cyngor i atal erledigaeth, fel rhan o’u dealltwriaeth o’r effaith y gall cam-drin ei chael ar ddioddefwr;
- nodi’r risg o stelcio ac aflonyddu, fel rhan o’u dysgu am weithredu fel ymatebwr cyntaf i ddigwyddiad nad yw’n gysylltiedig;
- *“Arfer da wrth ymateb i achosion o stelcio neu aflonyddu ac ymchwilio iddynt,”* fel rhan o’u dysgu ar gymryd camau cychwynnol priodol wrth ymateb i ddigwyddiad diogelu’r cyhoedd. Holodd SCHTh sut olwg oedd ar ‘arfer da’ yn yr addysgu hwn, a darparwyd rhagor o fanylion am y cynnwys:
 - Neilltuir pythefnos yn amserlen Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona i gwmpasu pob agwedd ar ‘fod yn agored i niwed,’ a oedd yn cynnwys stelcio ac aflonyddu, cam-drin domestig ac ymddygiad sy’n rheoli ac yn gorfodi.
 - Rhoddir y diffiniadau allweddol a’r ddeddfwriaeth i fyfyrwyr.
 - Darperir esboniadau ynghylch pa ddulliau y dylai swyddogion eu hystyried ar gyfer rheoli ymddygiad troseddwyr ar ôl euogfarnau, trwy gyfrwng Gorchmynion a Hysbysiadau.
 - Gwelir rhaglen ddogfen fer ar achos Alice Ruggles⁴⁸, a gofynnir i fyfyrwyr drafod beth ddylai eu barn a’u hymatebion fod ar y cam hwnnw o adrodd am ddioddefwyr.

⁴⁷ Tudalen 15: [20230223 Plismona Strategol Gofyniad V1.2 - OS.pdf \(cyhoeddi.gwasanaeth.gov.uk\)](#)

⁴⁸ Cafodd Alice Ruggles ei llofruddio yn 2016, yn ddim ond 24 oed, gan gyn-gariad yn dilyn ymgyrch ddi-baid o stelcio. <https://alicerugglestrust.org/>

- Mae hyn wedi'i wreiddio ymhellach yn y wers 'Awr Aur' o ran meddylfryd ymchwiliol a pha mor hanfodol yw hi i osgoi colli tystiolaeth a chyfleoedd.
- Mae'r myfyrwyr yn edrych ar y gwahanol fathau gwahanol o stelcwyr, ochr yn ochr ag ystyriaeth o ganllawiau stelcio neu aflonyddu gan y Coleg Plismona⁴⁹. Maent yn ystyried sut y dylent ymateb i sicrhau ymateb effeithiol i adroddiadau o stelcio neu aflonyddu, pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr asesiad risg ac unrhyw gyngor diogelwch digidol y dylid ei roi i ddioddefwyr.
- Mae myfyrwyr yn ystyried yr hyn y dylai swyddogion ei wneud mewn lleoliad, yn ogystal â chasglu tystiolaeth wrth ymdrin â throseddau o'r fath o ymddygiad sefydlog, obsesiynol, digroeso ac ailadroddus.
- Darperir deunydd dysgu ychwanegol i bob swyddog dan hyfforddiant, megis y coflyfr 'FOUR', Paladin⁵⁰ a manylion cymorth allanol eraill, ynghyd â thafenni diogelu ac enghraifft o gynllun diogelu cynhwysfawr.
- Diben gorchmynion amddiffyn – Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio, fel rhan o'u dealltwriaeth a'u defnydd o'r gyfraith, polisi a chanllawiau wrth drin dioddefwyr a thystion. Holodd SCHTh pa wybodaeth y mae swyddogion myfyrwyr yn ei chael am y rhain, h.y., a ydynt yn cael eu cynghori pryd y dylent ystyried gwneud cais am orchmynion o'r fath am y tro cyntaf. Darparwyd manylion pellach:
 - Dull effeithiol o reoli'r sawl a ddrwgdybir gan ddefnyddio gwaharddiadau ac yn ogystal â gosod gofynion cadarnhaol.
 - Y pwrpas a phwy ddylai dderbyn Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio.
 - Sut i gael Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio a pha mor hir y maent yn para.
 - Sut maen nhw'n gwybod bod Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio yn bodoli.
 - Beth i'w wneud os caiff Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio ei dorri.
 - Mae myfyrwyr hefyd yn cael mewnbwn gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymwneud â gorchmynion sifil, gan gynnwys Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio.

Adnoddau Mewnwyd yr Heddlu

Mae adnoddau hyfforddi ar gyfer swyddogion a staff ar gael ar dudalen fewnwyd yr Heddlu:

- Canllawiau Cam-drin Domestig i Gydweithwyr Rheng Flaen – Fideo yn amlygu'r ymateb y mae angen i swyddogion ei roi i ddioddefwyr Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu gan ddefnyddio'r acronym 'SERVICE': O'r ymchwiliad cychwynnol hyd at ôl-ofal dioddefwyr.
- Rhaglen Stelcio ac Aflonyddu:
 - Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau – Cwrs ymddygiad

⁴⁹ [Stelcio neu aflonyddu: Cyngor i ymatebwyr yr heddlu, derbynwyr galwadau rheoli cyswllt a chwestiynau sgrinio stelcio \(college.police.uk\)](http://Stelcio%20neu%20aflonyddu%3A%20Cyngor%20i%20ymatebwyr%20yr%20heddlu%2C%20derbynwyr%20galwadau%20rheoli%20cyswllt%20a%20chwestiynau%20sgrinio%20stelcio%20(college.police.uk))

⁵⁰ [Paladin – Gwasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol \(paladinservice.co.uk\)](http://Paladin%20-%20Gwasanaeth%20Eiriolaeth%20Stelcio%20Cenedlaethol%20(paladinservice.co.uk))

- Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Stelcio 2022 Neges y dioddefwr i HDP – mae dioddefwr stelcio yn annerch swyddogion yn y fideo hwn yn aelod o Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys
- Podlediad Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio
- Stelcio: Cyflwyniad gan yr Athro Clive Ruggles (tad Alice Ruggles)

Cwrs Ymchwilwyr PIP 2

Bydd pob Ditectif sy'n mynychu Cwrs Ymchwilwyr PIP 2⁵¹ yn derbyn mewnbwn ar stelcio ac aflonyddu, sy'n cynnwys yr angen i ystyried cyngor ymchwiliol cynnar mewn ymchwiliadau o'r fath, yn ogystal â Rhestr Wirio Casglu Tystiolaeth Cyd-gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Stelcio a'r Asesiad Cynnydd Risg Dynladdiad

Yn 2022, cyflwynodd yr Athro Jane Monckton-Smith o Brifysgol Swydd Gaerloyw fewnbynnau hyfforddi ar stelcio a'r amserlen dynladdiadau i Swyddogion Cam-drin Domestig, swyddogion yr Uned Ymchwilio Lleol, a thua 150 o swyddogion rheng flaen, yn Heddlu Dyfed-Powys. Mae ffocws yr hyfforddiant yn defnyddio ffyrdd newydd o fesur risg, gan edrych ar lefel yr obsesiwn y cyflawnwyr a'r amser y maent yn ei fuddsoddi'n ddyddiol yn eu hymgyrch stelcio. Mynychodd 183 o swyddogion y mewnbwnau hyn yn gyffredinol. Fel rhan o Bartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae swyddogion a phartneriaid Heddlu Dyfed-Powys wedi gallu mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth stelcio ar-lein ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Monckton-Smith. Yn [Erthygl Newyddion y BBC](#), dywedodd Ditectif Brif Arolygydd o Heddlu Dyfed-Powys fod yr hyfforddiant "wedi arwain at gynnydd yn nifer y troseddau stelcio a gorchmynion amddiffyn rhag stelcio a gyhoeddwyd", yn ogystal â hysbysu peilot ymyrraeth cyflawnwyr.

Hyfforddiant Rhanbarthol yr Heddlu

Mae tîm Dysgu a Datblygu'r Heddlu yn darparu hyfforddiant adrannol yn rheolaidd i swyddogion hyd at ac yn cynnwys rheng Arolygydd ar bynciau a nodir gan brif swyddogion.

Yn 2018, rhoddodd prif swyddogion gyfarwyddyd y dylai'r hyfforddiant adrannol ganolbwyntio ar 'fod yn agored i niwed', gan gynnwys stelcio ac aflonyddu. Dangoswyd fideos o fewnbynnau gan arbenigwyr pwnc i swyddogion a chymerwyd rhan mewn sesiwn cwestiwn ac ateb.

Yn 2022, roedd hyfforddiant yn cynnwys mewnbwn ehangach ar gam-drin domestig a stelcio, gan ganolbwyntio ar ddau faes pobl hŷn a seiber-stelcio. Cafwyd mewnbwn ar y Ddeddf Cam-drin Domestig hefyd.

⁵¹ "Mae Ymchwilydd PIP 2 yn defnyddio ystod o ddulliau ymchwiliol priodol i gasglu deunydd, gan roi'r dioddefwr yng nghanol yr holl gamau gweithredu a phenderfyniadau, i ymchwilio'n ddiogel ac yn effeithiol i droseddau difrifol a chymhleth gyda'r bwriad o sicrhau canlyniad priodol ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw." <https://profdev.college.police.uk/professional-profile/investigator-pip2/>

Hyfforddiant Asesu Sgrinio ar gyfer Stelcio ac Aflonyddu

Yn 2020 a 2022, mynychodd Swyddogion Cam-drin Domestig a swyddogion o'r Uned Asesu Risg Eilaidd hyfforddiant ar Asesu Sgrinio ar gyfer Stelcio ac Aflonyddu. Mae SCHTh wedi cael gwybod y bydd trydedd sesiwn yn cael ei chynnal yn 2023.

Domestic Abuse (DA) Matters (Mae Cam-drin Domestig yn Bwysig)

Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu swyddogion i adnabod arwyddion cynnar cam-drin domestig a deall y tactegau a ddefnyddir gan gyflawnwyr. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer ymatebwyr cyntaf i gam-drin domestig, sy'n cynnwys swyddogion heddlu rheng flaen, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, staff desg flaen mewn gorsafoedd heddlu, Swyddogion Cam-drin Domestig, a'r rhai sy'n delio â galwadau yng nghanolfan alwadau'r Heddlu.

Mae SCHTh wedi cael gwybod bod stelcio ac aflonyddu wedi'u gwreiddio drwy gydol yr hyfforddiant hwn.

Cyflwynwyd hyfforddiant Ymatebwyr Cyntaf ddiwethaf yn yr Heddlu ym mis Gorffennaf 2019. Mae 530 o swyddogion wedi'u hyfforddi ar hyn o bryd. Rhoddwyd y dewis i'r rhai a fynychodd dderbyn hyfforddiant ychwanegol i ddod yn 'Hyrwyddwr Pwysigrwydd Cam-drin Domestig'. Cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf yn yr Heddlu ym mis Medi 2019. Ar hyn o bryd mae 38 Hyrwyddwr Pwysigrwydd Cam-drin Domestig yn yr Heddlu.

Mae SCHTh wedi cael gwybod bod hyfforddiant DA Matters wedi'i gynnwys yng nghynllun hyfforddi 2023/24 ar gyfer yr Heddlu ac y bydd yn cael ei ddarparu ar y cyd â Chyngorwyr Trais Domestig Annibynnol.

Adnoddau Hyfforddiant y Coleg Plismona

Mae'r holl staff gweithredol yn cael eu cyfeirio gan yr Heddlu at ddysgu ychwanegol gofynnol ar wefan y Coleg Plismona: 'Stelcio neu Aflonyddu', sy'n darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth, sut i adnabod ac adnabod stelcio neu aflonyddu, yr effaith a gaiff ar ddioddefwyr, y camau ymchwilio cyntaf, a beth i'w wneud unwaith y bydd stelcio neu aflonyddu wedi'i nodi.

Hyrwyddwyr Stelcio

Mae SCHTh wedi darganfod nad yw Hyrwyddwyr Stelcio yn cwblhau rhaglen hyfforddi ffurfiol yn benodol ar gyfer eu rôl.

Defnyddir amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i sicrhau eu bod wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a chynghor arbenigol gwell ynghylch cam-drin domestig a stelcio. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant gyda'r Athro Jayne Monckton-Smith, hyfforddiant Materion Cam-drin Domestig a mewnbwn ar y Ddeddf Cam-drin Domestig newydd. Maent hefyd yn mynychu sesiynau 'Cinio a Dysgu' a chyfleoedd hyfforddi ad-hoc lleol a chenedlaethol.

Mae SCHTh wedi cael ei sicrhau, er bod gan bob swyddog rheng flaen ddealltwriaeth fanwl o'r drosedd gymhleth hon trwy hyfforddiant, bod Hyrwyddwyr Stelcio yn cael

hyfforddiant diweddarau mwy rheolaidd a mewnbwn i'w cynorthwyo yn eu rôl. Mae rhaglen ar gyfer Hyrwyddwyr Stelcio hefyd wedi'i datblygu'n ddiweddar, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Ymgynghoriad Hyfforddiant yr Heddlu

Ym mis Mai/Mehefin 2022, gofynnwyd i swyddogion rheng flaen gwblhau arolwg i helpu'r Heddlu i ddeall yr anghenion hyfforddi i wella adnabyddiaeth gychwynnol swyddogion ac ymateb i gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu.

Mae SCHTh wedi cael gwybod am y canfyddiadau canlynol:

- Yn gyffredinol, teimlai ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i ymateb i gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu. Fodd bynnag, awgrymwyd nad oedd polisïau a newidiadau deddfwriaeth newydd yn y maes hwn yn cael eu hesbonio'n ddigonol na'u rhaeadru i swyddogion rheng flaen.
- Teimlai ymatebwyr fod yr hyfforddiant yn cynnwys modiwlau ar-lein.
- Awgrymwyd y dylai hyfforddiant ymgorffori safbwyntiau a phrofiadau dioddefwyr. Cwblhawyd yr arolwg hwn cyn datblygu fideo Llais Dioddefwyr y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, fel y manylir yn adran 'Blaenoriaeth Plismona Stelcio ac Aflonyddu' o'r adroddiad hwn. Mae'r fideo bellach wedi'i wreiddio yn hyfforddiant yr Heddlu ac mae'n cynnwys dioddefwyr cam-drin domestig a stelcio, a ddylai helpu i ddod â'r elfen hon o lais y dioddefwyr i hyfforddiant. Mae SCHTh yn bwriadu datblygu'r cysyniad hwn ymhellach a chynnwys mwy o ddioddefwyr a goroeswyr mewn hyfforddiant heddlu.

Yn yr un modd, cwblhawyd yr arolwg cyn Cynhadledd Cam-drin Domestig yr Heddlu a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022 a nifer o sesiynau 'Cinio a Dysgu' a gynhaliwyd gan yr Heddlu a Phartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Clywodd y mynychwyr yn uniongyrchol gan oroeswyr stelcio, cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodol a rheoli. **Mewn unrhyw arolygon yn ymwneud â hyfforddiant a gynhelir yn fewnol yn y dyfodol, dylai Heddlu Dyfed-Powys geisio adborth penodol gan swyddogion ar gynnwys mewnbwn gan ddioddefwyr a goroeswyr mewn hyfforddiant.**

- Yn eu hymatebion, cyfeiriodd llawer o swyddogion at ddryswch ynghylch y newidiadau i arferion cofnodi ar gyfer stelcio ac aflonyddu. Mae hyn yn atgyfnerthu penderfyniad diweddar yr Heddlu i adolygu'r Fenter Hyrwyddwr Stelcio.

Mae SCHTh wedi canfod bod nifer o fewnbwn hyfforddi gwahanol a dderbyniwyd gan swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin ag agweddau ar blismona stelcio ac aflonyddu, gyda ffocws pwysig ar ddiogelu'r dioddefwr. Mae sgiliau ymchwilio a rheoli ymddygiad troseddswyr yn bynciau yr ymdrinnir â hwy hefyd, gan edrych ar yr offer sydd ar gael iddynt a diben gorchmynion amddiffyn sifil ar gyfer yr olaf. Mae'n bwysig bod y negeseuon hyn yn parhau i gael eu cyflwyno drwy'r amrywiaeth o fecanweithiau hyfforddi, er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf.

Dysgu o Ymgyrch Soteria Bluestone

Wedi'i lansio yn 2021, mae Ymgyrch Soteria Bluestone yn ymdrechu i drawsnewid ymateb yr heddlu i dreisio a throseddau rhywiol eraill (RASSO). Yng nghanam cyntaf y prosiect, roedd heddluoedd 'braenaru' yn rhan o weithgareddau craffu dwys a arweiniwyd gan academyddion, gan edrych ar sut yr oedd yr heddluoedd hynny'n plismona RASSO.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn un o 14 o heddluoedd 'ehangu' sy'n rhan o ail gam yr Ymgyrch hon. Tua diwedd 2022, cwblhaodd yr Heddlu hunanasesiad o sut y maent yn plismona RASSO.

Ym mis Tachwedd, cafodd yr Heddlu ymweliad deuddydd gan dîm Op Soteria Bluestone Central, gyda nifer o staff a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â phartneriaid, yn cymryd rhan mewn trafodaethau agored a gonest pwysig. Mynychodd y Comisiynydd y sesiwn ôl-drafod, lle cyflwynwyd trosolwg o'r canfyddiadau gan dîm Op Soteria. Cyflwynwyd adroddiad i Heddlu Dyfed-Powys ym mis Ionawr 2023, a rannwyd gyda SCHTh.

Ar ôl adolygu'r adborth a'r argymhellion ynddo, adlewyrchodd SCHTh a ellid cymhwyso rhywfaint o'r dysgu i blismona stelcio ac aflonyddu, yn benodol mewn perthynas â rheoli troseddwyd a gwrando ar ddioddefwyr.

Mae SCHTh yn argymhell bod yr Heddlu'n ystyried sut y gall dysgu o adroddiad Operation Soteria Bluestone fod yn berthnasol i blismona stelcio ac aflonyddu.

Gweithgaredd Hapsamplu Stelcio ac Aflonyddu

Achosion a Ystyriwyd

Archwiliwyd dau ddeg naw o achosion a ddosbarthwyd fel 'stelcio ac aflonyddu' o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref fel rhan o ymarfer samplu hap a gynhaliwyd gan staff o SCHTh. Roedd y rhain yn cynnwys achosion o stelcio, ymddygiad rheoli a gorfodi, aflonyddu, cyfathrebu maleisus ac aflonyddu a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd.

Yn eu hadolygiad o achosion, canolbwyntiodd staff SCHTh ar reoli troseddwy, ac a oedd y prosesau rheoli a fabwysiadwyd yn sicrhau bod y dioddefwyr yn cael eu diogelu.

Cafodd yr achosion a ystyriwyd eu cofnodi gan Heddlu Dyfed-Powys rhwng Awst a Rhagfyr 2022, gyda'r mwyafrif o achosion wedi'u cofnodi yn chwarter olaf 2022 (Hydref-Rhagfyr).

Roedd mwyafrif yr achosion a ystyriwyd yn achosion stelcio, er mwyn caniatáu mwy o graffu ar reolaeth troseddwy yn yr achosion hyn. Fel cymharydd, ystyriwyd hefyd niferoedd llai o achosion 'stelcio ac aflonyddu' eraill.

Wrth adolygu pob achos, gofynnwyd i staff SCHTh ystyried:

- pa brosesau rheoli troseddwy a roddwyd ar waith;
- a roddwyd gwybod i'r dioddefwr am y prosesau hyn ac a gafodd ei ddiogelu o ganlyniad;
- mewn achosion lle'r oedd gorchmynion sifil, hysbysiadau neu amodau mechnïaeth wedi'u cymhwyso, a oedd y cyflawnwr wedi torri'r amodau ac os felly, sut y rheolwyd hyn;
- a geisiodd y swyddog ymchwilio gyngor a chefnogaeth gan arbenigwyr o fewn yr Heddlu, megis y Gwasanaethau Cyfreithiol (ar gyfer gorchmynion sifil) neu Hyrwyddwyr Stelcio;
- a oeddent wedi nodi unrhyw arfer da yn yr achos.

Canfyddiadau Hapsamplu

Prosesau rheoli troseddwy

Trwy ystyried yr achosion, gwelodd SCHTh gyfeiriad cyfyngedig at y Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd.

Yn gadarnhaol, mewn dau achos, ychwanegwyd nodyn yn gofyn i'r swyddog ymchwilio gysylltu â Chydlynnydd Cynlluniau Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio yr Heddlu pe bai'r canlyniad yn 'ddim gweithredu pellach'. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod addasrwydd y cyflawnwr ar gyfer y rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd yn cael ei ystyried.

Nid yw hyn wrth gwrs yn golygu na chafodd atgyfeiriad i'r Rhaglen ei ystyried mewn unrhyw un o'r achosion eraill, ond ni allai SCHTh fod yn sicr bod hyn wedi digwydd.

Felly, yn unol â'r argymhelliad i sicrhau bod holl ystyriaethau gorchmynion sifil yn cael eu nodi ar y System Rheoli Troseddau, **mae SCHTh hefyd yn argymhell bod yr Heddlu yn sicrhau bod yr holl ystyriaethau o ymyriadau megis y Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd yn cael eu cofnodi.** Mae hyn nid yn unig yn rhoi sicrwydd bod swyddogion yn ystyried yr opsiwn pwysig hwn, ond hefyd yn darparu'r wybodaeth berthnasol i'r holl swyddogion eraill sy'n gysylltiedig a/neu sy'n adolygu'r achos.

Nodwyd hefyd ddiffyg cyfeiriad at ystyried Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio. Pe bai swyddog wedi ystyried gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Stelcio, nid oedd hyn yn cael ei gofnodi fel mater o drefn ar y cofnod troseddau. Unwaith eto, mae SCHTh yn cynghori y byddai hyn yn arfer gorau.

Nododd staff SCHTh ddefnydd rheolaidd a chyson o Op Manatee lle'r oedd troseddau stelcio yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Op Manatee yw dull Heddlu Dyfed-Powys o symud ymlaen ag ymholiadau arestio ar gyfer rhai sydd o dan amheuaeth o droseddau cam-drin domestig. Os na chaiff rhywun a ddrwgdybir o gam-drin domestig ei ganfod o fewn 24 awr, caiff ei roi ar restr Op Manatee. Mae ymholiadau arestio ar gyfer troseddau sy'n weddill yn cael eu tasgio ar ddechrau pob sifft. Mae cofnodion Op Manatee yn cael eu gwirio a'u profi gan Arolygwyr a chaiff unigolion risg canolig ac uchel eu codi mewn Cyfarfodydd Rheoli Dyddiol.

Mewn achos o aflonyddu ar sail hil neu grefydd, awdurdodwyd cyhoeddi Rhybuddiad Oedolyn gan yr Arolygydd yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r achos, gydag amod yn cael ei gymhwyso i'r unigolyn beidio â chysylltu â'r dioddefwr. Nododd yr Arolygydd, *"Rwy'n fodlon bod rhoi Rhybuddiad Oedolyn yn gymesur ac yn gyfreithlon o dan yr amgylchiadau. Bwriad cyhoeddi Rhybuddiad Oedolyn yw i'r troseddwr newid ei ymddygiad ac atal unrhyw drosedd pellach."* Mae cronfeydd data'r heddlu yn datgelu bod y Rhybudd Oedolyn wedi'i weinyddu ym mis Tachwedd 2022, a bod dwy drosedd trefn gyhoeddus arall yn ymwneud ag aflonyddu/aflonyddu wedi'u cofnodi yn erbyn y cyflawnwr ym mis Rhagfyr 2022. Byddai'n ymddangos felly fel pe na bai'r Rhybuddiad Oedolyn yn rhwystr effeithiol i droseddau'r cyflawnwr hwn.

Amlygodd un achos o stelcio broblem bosibl gyda hyd gorchymyn sifil a sut y byddai'r troseddwr yn cael ei fonitro drwy gydol yr amser. Arestwyd y sawl a ddrwgdybir am dorri gorchymyn, ond dywedodd y dioddefwr nad oedd am i'r gorchymyn bara mor hir â hynny. Roedd y dioddefwr wedi gwahodd y sawl a ddrwgdybir i bryd o fwyd teuluol, ac arestwyd yr unigolyn am hynny. Mae hyn yn codi amheuaeth a yw gorchmynion sifil yn cael eu hadolygu ar ôl cyfnod penodol i ganfod a ddylent fod yn eu lle o hyd. **Mae SCHTh yn argymhell bod yr Heddlu yn ystyried monitro ac adolygu gorchmynion sifil yn barhaus. Dylai adolygiadau o'r fath gynnwys barn y dioddefwr.**

Codwyd sawl mater gan staff SCHTh wrth iddynt ystyried achos stelcio gwahanol:

